Cofnodion Cyngor nos Iau Ebrill 14 2022 am 7pm
Presennol: E.R.Noble, L.Roberts, C.Brewer, C.L.Price, T.W.Jones, M.L.Hughes.
Ymddiheuriadau: M.Chapman, M.Skerret
Datgan Diddordeb. Dim.

Cofnodion: Cadarnhawyd cofnodion 3.3.22, cynnig L.Roberts, cefnogi M.Hughes.

Heddlu. Dim i'w adrodd.

Yr A470. Liz Roberts wedi derbyn cwynion gan bobol leol sy'n byw ar ochr yr A470 am 'dwrw' wrth i'r drafnidiaeth yrru heibio ei tai ac yn meddwl fod hyn wedi cynyddu yn dilyn ailwynebu'r ffordd yr Haf diwethaf? Clerc i anfon at Tim Baines a Iolo Tegid i gwyno, yr un pryd i ofyn eto am gael symud yr arwydd rheolaeth gyrru yn ei ôl i safle tuag at cyfeiriad Tanycastell cyn cyrraedd tro Pont Arenig, mae llawer o loriau yn cario llwythi trymion yn defnyddio'r ffordd ac nid oes ganddynt obaith o arafu i'r cyflymder cywir gyda'r arwydd yn ei le presennol. Beth am arwydd 20 mya yn fflachio?
Cyflymder - Liz wedi derbyn atebiad gan Tim Barnes Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru yn egluro yr hyn maent yn weithio ato ar gyfer 2023 gyda cyflymder o 20mya mewn rhai ardaloedd yn dod i rym ble mae 30mya mewn grym ar hyn o bryd. Pwysleisiodd Liz ei bod yn bwysig fod y Cyngor yn dal i ohebu gyda hwy ar gor-yrru drwy'r ardal.

Cyngor Sir. Mae 2 lamp 'math lantern' wedi'i gosod ar yr A470 hyd yma. Mae'n bosibl mai anfon at NMWTRA fydd ei angen gyda'r cerrig sy'n rhydd ar Bont Tan y Castell.

Llwybrau. Anfon eto gyda'r 'ystol' ger Granllyn mae llawer yn dal i'w defnyddio ac yn creu problem gyda parcio ar ochr y ffordd. Liz Roberts yn mynd i gysylltu i nodi problem gyda'r ffôs ar lwybyr Pengelli.

Pontydd yn yr Ardal. Clerc i gysylltu â Bryn Shiland i gael gwybodaeth am y sefyllfa gyda gwaith ar y pontydd gan gynnwys Pont yr Afon..

Cynlluniau.
Ty'n Afallen - dim penderfyniad
Bodygroes - dim penderfyniad
Pont Chwarel y Fedw - dim penderfyniad

Llifogydd. Dywedodd L.Roberts ei bod ar ddeall gobeithio y bydd gwaith yn cymryd lle yn 2022.

Scottish Power. Cadarnhaodd L.Roberts bod gwaith yn mynd ymlaen i drafod y ffordd orau i fynd ati i ddatrys y problemau colli pwer yn ystod gwyntoedd a stormydd.

Toiledau. Cadarnhaodd Liz Roberts ei bod wedi derbyn gwybodaeth yn cadarnhau fod y gwaith papur wedi'i gwblhau a'i bod yn disgwyl i Steve Teale drefnu'r trosglwyddiad.

Y Gofgolofn. Gofalwr. Un cais dderbyniwyd gan Michael Finch, ar gyfer torri gwair a chadw tir y Gofgolofn yn daclus. Trafodwyd y cais yn fanwl gan gytuno y dylai torri bob 3 wythnos fod yn addas, derbyniwyd yr amcan bris gyda L.Roberts yn cynnig, T.W.Jones yn cefnogi a pawb o blaid. Clerc i gysylltu.

Y Fynwent. Cytunwyd fod yr ymgynhoriad gyda'r cyhoedd wedi bod yn llwyddiant gyda sawl un yn galw yn y Pafiliwn i drafod cynlluniau a bwriadau'r Cyngor ar gyfer y Fynwent. Mae'r is-bwyllgor yn cyfarfod yn aml i drafod y gwaith sydd ei angen a diolchwyd yn fawr iddynt. Diolchwyd hefyd i Connie am ei hadroddiadau manwl o'r hyn sy'n cael ei drafod ar gyfer yr aelodau. Mae llawer o waith eto i'w drafod a'i gynllunio.

Gofalwr. Derbyniwyd un cais gan Alistair Minton, trafodwyd y cais a cynigodd C.Brewer gyda M.Hughes yn cefnogi a phawb o blaid y dylid derbyn yr amcan bris Clerc i gysylltu ag ef.

Torri Coed y Fynwent
Nodwyd diddordeb gan C.Brewer ar gychwyn y drafodaeth.
Derbyniwyd 3 amcan bris ar gyfer y gwaith - ni enwyd y 3 chwmni, roedd Connie wedi paratoi taflen hwylus iawn yn cynnwys manylion yr hyn y buasai'r tri cwmni yn ei wneud ynghyd â'r amcan bris. Trafodwyd y tri cais yn fanwl cyn i bawb gytuno ar gynnig gan C.Price gyda T.W.Jones yn cefnogi, i dderbyn cais B. Wedi gorffen y drafodaeth a pleidleisio ar y 3 datgelwyd mae Cwmni Alfa oedd yn fuddugol, Clerc i gadarnhau hyn gyda hwynt ac anfon at y 2 gwmni arall i ddiolch iddynt am eu diddordeb. Cytunwyd mai plannu'r coed newydd yn yr Hydref fuasai orau ac y buasai'n addas i Rhydian Roberts o'r Parc Cenedlaethol ddod draw i gael golwg, mae'r Parc wedi cyflwyno 70 o goed ar gyfer eu plannu fel rhan o ddathliadau 70 mlynedd bodolaeth y Parc eleni. Hefyd mae'r YDCW wedi cyflwyno 3 coeden addas i'w plannu yn y fynwent, cytunwyd i'w lleoli yn y tir o flaen y cwt hers, mae cynrychiolwyr yn bwriadu dod i'r fynwent ar gyfer y plannu.

Ariannol. Rhoes y Clerc adroddiad am y sefyllfa bresennol i'r Aelodau a chytunwyd ar y biliau i'w talu, cynnig C.Brewer, cefnogi L.Roberts a pawb o blaid.

Gwefan y Cyngor. M.Skerrett ddim yn bresennol, awgrymwyd y dylid nodi ar y safle fod gwaith yn cymryd lle arni hyd nes y bydd Mike wedi cael trefn ar safle newydd.

Sgip. Y dyddiad ar gyfer cael ymweliad Sgip ydi Mai 10fed gydag un arall ar gyfer Awst 3ydd, mae B.Valintine wedi cadarnhau y gwnaiff Menter Siabod dalu am honno.

Beicio Taith Eryri. Deallwyd fod y trefnwyr yn mynd i ddal i ddod i'r ardal ond eu bod yn trefnu llwybrau gwahanol i'r hyn dderbyniwyd ganddynt eisoes.

Trafod Dogfen. Clerc wedi trafod â Haf Jones, ni chafwyd cyfle i gwblhau'r ddogfen.

Adeilad gwâg yn y Pentref. Dim gwybodaeth pellach.

Materion i'r Cyngor Sir. Deallwyd fod twll yn llwybyr y Ddôl ar y bont fechan ochr Pentrefelin.
Coeden gwaelod Allt Gweithdy angen sylw neu ei thorri oherwydd ei chyflwr, gwnaiff Liz Roberts gysylltu i nodi'r rhain gyda CBSC.

Cyflymder ceir drwy'r pentref. Deallwyd fod rhai yn y pentref yn barod i fynd ati i nodi'r cyflymder mae ceir yn yrru trwy'r pentref gan ddefnyddio 'gwn pwrpasol'. Clerc i drafod gyda hwy ynglŷn a sut mae cael 'y gwn' a chael hyfforddiant.

Cyfarfod nesaf. Cytunwyd i gyfarfod nesaf nos Iau Mai 12fed am 7pm